


# CYNGOR TREF RHUTHUN RUTHIN TOWN COUNCIL

Neuadd y Dref  
Ffordd Wynnstay  
RHUTHUN  
LL15 1AS  
Ffôn: (01824) 703797  
e-bost: [clerc@cyngortrefrhuthun.gov.uk](mailto:clerc@cyngortrefrhuthun.gov.uk)



Town Hall  
Wynnstay Road  
RUTHIN  
LL15 1AS  
Tel: (01824) 703797  
e-mail: [clerk@ruthintowncouncil.gov.uk](mailto:clerk@ruthintowncouncil.gov.uk)

*Clerc y Dref / Town Clerk: Sandra Williams*

Eich Cyf/Your Ref:

Ein Cyf/Our Ref:

Dyddiad/Date:

19 Chwefror 2018

At Faer y Dref a Chynghorwyr  
**Cyngor Tref Rhuthun**

Annwyl Aelod

Gofynnir i chi ddod i Gyfarfod Cyffredin **CYNGOR TREF RHUTHUN** i'w gynnal yn **Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun NOS LUN, 26 CHWEFROR 2018** at 7:00p.m. Nodir y busnes i'w drafod yn y cyfarfod yn yr agenda isod.

Yn gywir

*Sandra Williams*

Sandra Williams, **Clerc y Dref**

## **AGENDA**

- 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**
- 2. DATGAN BUDDIANNAU**  
Datgan unrhyw fudd personol neu ariannol yn yr eitemau busnes a restrir isod.
- 3. ADRODDIAD Y MAER**
- 4. ADRODDIADAU'R AELODAU**
- 5. COFNODION Y CYFARFOD CYFFREDIN BLAENOROL**  
Derbyn a chadarnhau bod cofnodion Cyfarfod Cyffredin y Cyngor a gynhaliwyd ar 22 Ionawr 2018 yn gywir.
- 6. MATERION YN CODI**
- 7. COFNODION Y PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU**  
Derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Chwefror 2018.
- 8. COFNODION Y PWYLLGOR AMWYNDERAU**  
Derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Chwefror 2018.
- 9. DYDDIAD YR YMGYRCH CASGLU SBWRIEL YN Y DREF**  
Cadarnhau y bydd y codi sbwriel yn digwydd ddydd Sadwrn, 24 Mawrth – cyfarfod ym maes parcio Cae Ddôl am 10 o'r gloch y bore a dychwelyd am hanner dydd.

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg / Correspondence welcomed in Welsh and English

[www.cyngortrefrhuthun.gov.uk](http://www.cyngortrefrhuthun.gov.uk) / [www.ruthintowncouncil.gov.uk](http://www.ruthintowncouncil.gov.uk)

- 10. ASESIAID RISG BLYNYDDOL**  
Derbyn a chadarnhau'r Asesiad Risg Blynyddol.
- 11. STRATEGAETH FUDDSODDI FLYNYDDOL**  
Derbyn a chadarnhau'r Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol.
- 12. CAIS AM GYMORTH ARIANNOL – CERDD CYDWEITHREDOL SIR DDINBYCH**  
Ystyried cais am gymorth ariannol i Fand Pres Ieuenctid Sir Ddinbych gan Cerdd Cydweithredol Sir Ddinbych.
- 13. CAIS AM GYMORTH ARIANNOL – CYSWLLT CYMDEITHAS GWARCHOD AR-LEIN SIR Y FFLINT A WRECSAM**  
Ystyried llythyr gan y gymdeithas uchod yn gofyn am gymorth ariannol tuag at gynlluniau gwarchod cymdogaeth yn yr ardal leol.
- 14. CYNRYCHIOLYDD CYNGOR TREF RHUTHUN AR BWYLLGOR SIOE RHUTHUN**  
Penodi cynrychiolydd y Cyngor Tref ar Bwyllgor Sioe Rhuthun yn dilyn ymddiswyddiad diweddar y cyn Gyngorydd Geraint Woolford.
- 15. AELODAETH UN LLAIS CYMRU 2018-19**  
Ystyried Cyngor Tref Rhuthun yn ymaelodi gydag Un Llais Cymru yn 2018-19 ar gost dechreuol gyda gostyngiad o 50%, sef £411.00.
- 16. DATGANIAD ARIANNOL**  
Derbyn a chymeradwyo datganiad ariannol y Swyddog Ariannol Cyfrifol am y cyfnod yn diweddu 30 Ionawr 2018.

**17. CYFRIFON I'W TALU**

Cymeradwyo talu'r eitemau a ganlyn:

5134	Zurich Municipal	Yswiriant ar gyfer 2018-19		£4,566.45
5135	Clwb Bowlio Gorphwysfa	Cyfraniad		£200.00
5136	Homestart Sir Ddinbych	Cyfraniad		£300.00
5137	Eisteddfod Gydwladol Llangollen	Cyfraniad		£100.00
5138	Ambiwllans Awyr Cymru	Cyfraniad		£250.00
5139	Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd	Cyfraniad		£100.00
5140	HCI Data Limited	Adnewyddu'r parthau <a href="http://ruthintowncouncil.gov.uk">ruthintowncouncil.gov.uk</a> a <a href="http://cyngortrefrhuthun.gov.uk">cyngortrefrhuthun.gov.uk</a> am ddwy flynedd	*	£167.76
5141	Cyngor Sir Ddinbych	Gosod a thynnu'r goleuadau Nadolig i lawr	*	£4,518.54
5142	Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi	Treth incwm ac Yswiriant Gwladol		£274.90
5143	Marian Rees	Cyfieithu ar y pryd	*	£180.00
5144	Fineline	Nwyddau swyddfa	*	£9.28
5145	The Play Inspection Company	Archwiliadau blynyddol ardal chwarae'r Caeau Chwarae Coffa a pharc sglefrfyrdio Cae Ddôl	*	£156.00

(Mae'r eitemau wedi eu nodi gyda \* uchod yn cynnwys TAW adferadwy gwerth £994.22)

**RHAN DAU**

**18. YR HEN LYS**

Ystyried y datblygiadau diweddaraf o ran yr Hen Lys.

**19. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

Cadarnhau mai dyddiad cyfarfod nesaf y Cyngor Tref fydd nos Lun, 26 Mawrth 2018.